Gwasanaeth
Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach
National Safeguarding
Service
NHS Safeguarding for a Safer Wales

CYMRU | NHS WALES
DIOGELU RHWYDWAITH | SAFEGUARDING NETWORK

GIG CYMRU NHS WALES

# Heb eu Cludo i Apwyntiadau / Diffyg mynediad

# Ystyriaethau Diogelu Plant neu Oedolion dan risg

# Cyfarwyddyd GIG Cymru

Gorffennaf 2025

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Diben & Cwmpas | 3 |
| Cefndir a Seiliau Rhesymegol | 3 |
| Datganiad Cyfarwyddyd | 3 |
| Fframwaith Deddfwriaeth & Polisi | 3 |
| Datganiad Ansawdd – beth yw safonau da? | 4 |
| Amcanion | 4 |
| Cyfrifoldebau Diogelu | 5 |
| Dull Darlun Cyfan | 5 |
| Egwyddorion Allweddol Cyrff GIG Cymru | 6 |
| Crynodeb | 7 |
| Atodiad A: Ffactorau Nodi Risgiau – Methu Apwyntiadau / Diffyg Mynediad | 8 |
| Atodiad B: Deall beth sy'n Rhwystro Presenoldeb | 9 |
| Atodiad C: Termau a Diffiniadau | 10 |

# Diben & Cwmpas

Paratowyd y cyfarwyddyd hwn ar gyfer holl aelodau staff GIG Cymru a phartneriaid diogelu perthnasol. Mae'n darparu cyfeiriad strategol ac yn amlinellu egwyddorion er datblygu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau lleol i nodi ac asesu risgiau, a mesurau diogelu addas yn brydlon.

# Cefndir a Seiliau Rhesymegol

Mae methu apwyntiadau ac ymweliadau heb dderbyn mynediad yn themâu rheolaidd wrth drafod Adolygiadau Arferion Plant, Adolygiadau Arferion Oedolion, ac Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref drwy Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Efallai bod colli cyfleoedd fel hyn yn adlewyrchu esgeulustod neu risg o niwed, yn arbennig wrth eu hailadrodd a methu eu hesbonio.

Yn ôl adolygiadau arferion diogelu mae methu apwyntiadau gofal iechyd yn gallu arwain at rybuddion cynnar o gamdriniaeth neu esgeulustod. Rhaid cydnabod y patrymau hyn ac ymateb mewn modd addas.

# Datganiad Cyfarwyddyd

Mae'r cyfarwyddyd cenedlaethol hwn yn darparu fframwaith strategol ar gyfer cyrff GIG Cymru a phartneriaid diogelu aml-asiantaethau, gan gefnogi dull cyson ar draws systemau o daclo achosion pan fydd plentyn neu oedolyn dan risg yn destun y dilynol:

- **Heb eu cludo i apwyntiad (wyneb yn wyneb neu rithwir), neu**
- **Staff wedi methu cael mynediad ar gyfer apwyntiad yn y cartref**

Efallai bod senarios methu apwyntiad neu ddiffyg mynediad yn awgrymu anghenion heb eu diwallu neu bryderon diogelu. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn amlinellu egwyddorion allweddol a disgwyliadau er sicrhau ymateb diogelu rhagweithiol a chydlynol ar draws GIG Cymru.

# Fframwaith Deddfwriaeth & Polisi

Rhaid darllen y cyfarwyddyd hwn ar y cyd â'r dilynol:

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Cydweithio er Diogelu Pobl – Cod Arferion Diogelu 2022
- Deddf Plant 1989
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (1989)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Gallu Meddyliol 2005
- Deddf Gydraddoldeb 2010
- Polisïau a gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Llwybr Hysbysu Plant sy'n derbyn gofal GIG Cymru

# Datganiad Ansawdd – beth yw safonau da?

**Mae GIG Cymru yn cydnabod ein cyfrifoldeb i warchod diogelwch a llesiant pob unigolyn. Rhaid i fesurau diogelu barhau yn flaenoriaeth allweddol pan fydd plant neu oedolion dan risg yn methu apwyntiadau iechyd neu pan fydd staff yn methu cael mynediad ar gyfer ymweliadau â chartrefi.**

Wrth gydweithredu ag asiantaethau, byddwn yn ymdrechu i ddeall a thaclo rhwystrau rhag cadw apwyntiadau a diwallu a blaenoriaethu anghenion iechyd mewn modd sy'n hyrwyddo llesiant.

Yn sicr, mae mynychu apwyntiadau iechyd yn brydlon a threfnu mynediad ar gyfer ymweliadau â chartrefi yn elfennau pwysig wrth hyrwyddo iechyd a llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion dan risg. Pan na fydd unigolion yn cael eu cludo i weld staff iechyd, rhaid dilyn ein chwilfrydedd proffesiynol ac ymrwymo i ddeall yr achosion sylfaenol.

Mae hynny'n cynnwys darparu'r cymorth angenrheidiol er gwella canlyniadau iechyd a mesurau diogelu. Dylai staff gymryd mesurau prydlon a chymwys, yn cynnwys cyfathrebu'n glir gydag unigolion a theuluoedd, gan ddilyn i fyny unrhyw fethiant i gysylltu at daclo materion a allai rwystro mynediad yn y dyfodol.

Bydd cydweithredu gan wahanol asiantaethau yn hanfodol er darparu gofal a chymorth holistaidd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac er sicrhau na fydd unrhyw un yn destun risgiau ar ôl methu cyfarfod gofal iechyd.

Dylai polisïau cyrff GIG ym maes Heb eu cludo i apwyntiad/dim mynediad i gartref adlewyrchu'r arferion diogelu yn y cyfarwyddyd hwn.

---

# Amcanion

**Amcanion y cyfarwyddyd hwn:**

- Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer cyrff GIG wrth nodi ac ymateb i bryderon diogelu pan na fydd plentyn neu oedolyn dan risg yn cael eu cludo i apwyntiad neu heb dderbyn mynediad
- Hyrwyddo rhannu gwybodaeth addas, gydag ymateb cyson ac effeithiol gan aml-asiantaethau
- Pwysleisio bod pawb yn gyfrifol am ddiogelu.

**Cyrff i sicrhau bod gweithdrefnau lleol yn cynnwys:**

- Prosesau i ddilyn i fyny achosion o fethu apwyntiad a/neu diffyg mynediad
- Ystyried dibyniaeth plentyn neu oedolyn dan risg ar eraill er mwyn eu galluogi i fynychu apwyntiadau
- Trefnu dogfennau addas, cynnal cofnodion cywir, dilyn amserlenni manwl a chynnal mesurau diogelu prydlon.

---

## Cyfrifoldebau Diogelu

Rhaid cydnabod methu apwyntiadau neu ddiffyg mynediad fel rheswm i boeni am ddiogelu. Ni ddylai unigolion adael gofal yn dilyn methu apwyntiadau yn unig, heb gynnal asesiad manwl o risgiau diogelu. Mae gwasanaethau yn gyfrifol am ymchwilio'r rhesymau am fethu apwyntiadau, yn arbennig achosion yn cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion dan risg. Os bydd pryderon yn parhau, rhaid cynnal prosesau diogelu gan aml-asiantaethau.

O dan rai amgylchiadau, efallai bydd yr egwyddorion hyn yn alinio â pholisïau megis Rhyddhau yn erbyn Cyngor Meddygol, Heb aros am apwyntiad (Discharge Against Medical Advice, Did Not Wait), neu weithdrefnau ar gyfer cleifion sy'n mynd ar goll. Fodd bynnag, dylai ystyriaethau diogelu fod yn flaenoriaeth wrth lywio'r broses o gymryd penderfyniad.

---

## Dull Darlun Cyfan

Mae'n debyg na fydd methu un apwyntiad yn destun pryder ynddo'i hun. Ond, wrth ei ystyried ar y cyd â methu cyfarfodydd eraill (ee ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, addysg), efallai bydd darlun diogelu clir yn dod yn amlwg. Dylai'r asiantaethau perthnasol ddiffinio mesurau gweithredu yn unol â'u prosesau nhw.

Er mwyn helpu staff i ddeall y darlun cyfan, datblygwyd dull darlun cyfan Ffactorau Nodi Risgiau – Methu Apwyntiadau / Diffyg Mynediad (**Atodiad A**) gan helpu i asesu risgiau pan na fydd plant, pobl ifanc neu oedolion dan risg yn cael eu cludo i apwyntiadau, neu pan na fydd ymweliadau'n derbyn mynediad. Dylid defnyddio'r rhestr ochr yn ochr â chyngor proffesiynol, a gweithdrefnau aml-asiantaethau.

---

# Egwyddorion Allweddol Cyrff GIG Cymru

## 1 | Diogelu fel Blaenoriaeth

- Ni ddylid ystyried methu apwyntiadau neu ddiffyg mynediad **fel achosion ar wahân**
- Trin pob methiant i gysylltu fel **achos pryder diogelu,** nid mater gweinyddol
- **Rhaid rhoi blaenoriaeth i ystyriaethau diogelu** yn hytrach na gofynion rhyddhau neu wasanaeth.

## 2 | Chwilfrydedd Proffesiynol & Nodi Risgiau

- Dilyn **chwilfrydedd proffesiynol** er deall yr achosion sylfaenol
- Defnyddio'r **Rhestr Nodi Risgiau** (Atodiad A) er hysbysu penderfyniadau
- Edrych am **batrymau ar draws asiantaethau a gwasanaethau** er mwyn cael darlun diogelu llawn.

## 3 | Mesurau Prydlon & Cymesur

- Dilyn i fyny pob methiant i fynychu cyfarfod neu achosion dim mynediad yn **brydlon a chymesur**
- Hysbysu arweinwyr diogelu neu brosesau aml-asiantaethau os bydd pryderon yn parhau
- **Peidio rhyddhau** plant neu oedolion dan risg yn dilyn methu apwyntiadau yn unig

## 4 | Asiantaethau yn Cydweithredu

- Rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng partneriaid er cefnogi **ymateb cydlynol**
- Dilyn **prosesau diogelu aml-asiantaeth** wrth gyrraedd trothwyon
- Sicrhau bod polisïau byrddau ac ymddiriedolaethau yn alinio â **pholisïau byrddau diogelu rhanbarthol.**

## 5 | Deall & Taclo Rhwystrau

- Nodi rhwystrau **emosiynol, seicolegol, ymarferol ac economaidd-gymdeithasol** rhag cadw apwyntiadau (Atodiad B)
- Gwneud **addasiadau rhesymol** (ee amserau hyblyg, trafnidiaeth, cyfieithwyr)
- Cyfathrebu'n glir ac yn gynhwysol ag unigolion a theuluoedd.

## 6 | Cynnal Cofnodion a Dogfennau

- Cadw cofnodion **clir, cywir ac amserol o bob apwyntiad a fethwyd, a'r mesurau a gymrwyd**
- Cynnwys **amserlenni** a mesurau diogelu
- Defnyddio terminoleg yn gyson (ee **Heb eu cludo, Diffyg mynediad**).

## 7 | Dull Darlun Cyfan

- Adolygu pob methiant i gadw apwyntiad **yn ei gyd-destun** – ystyried achosion eraill a hanes diogelu
- Cydlynu â gwasanaethau eraill (ee gofal cymdeithasol, addysg) er cynnal **goruchwyliaeth gynhwysol**.

## 8 | Llais a Hawliau'r Unigolyn

- Gwrando ar ac ymateb i **lais y plentyn neu oedolyn dan risg**
- Parchu annibyniaeth er yn cynnal yr hawl i **iechyd a diogelwch rhag niwed**
- Defnyddio dulliau cyfathrebu hygyrch ac addasedig pan fydd angen.

## 9 | Cyfrifoldebau Trefniadol ac Alinio Polisïau

- Sicrhau bod polisïau lleol yn:
  - – Adlewyrchu'r cyfarwyddyd cenedlaethol hwn
  - – Cynnwys **gweithdrefnau dilyn i fyny** yn achos methu apwyntiad/diffyg mynediad
  - – Diffinio **trothwyon mesurau diogelu**.
- Alinio â deddfwriaeth a fframweithiau cenedlaethol (ee *SSWBA 2014, Deddf Plant 1989, Gweithdrefnau Diogelu Cymru).*

## 10 | Monitro & Cydymffurfiad

- Defnyddio'r egwyddorion uchod fel **meincnod archwilio a hunanasesu**
- Monitro cydymffurfiad drwy:
  - – Archwilio achosion
  - – Olrhain mesurau diogelu
  - – Derbyn ymateb gan aml-asiantaethau
  - – Hyfforddiant ac arolygu staff

# Crynodeb

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn tanlinellu bod angen osgoi trin methu apwyntiadau neu ddiffyg mynediad ar wahân, neu eu hanwybyddu fel pethau rheolaidd. Er y gallai bod rhesymau dilys, rhaid i fethu apwyntiadau yn aml neu heb reswm fod yn destun cwestiynau, ystyriaeth ac ymateb diogelu addas.

Mae pob cyfarfod proffesiynol yn gyfle i nodi risgiau, deall anghenion unigolion a hyrwyddo diogelwch a llesiant. Wrth gynnal dogfennau cyson, dilyn i fyny mesurau a chydweithio, bydd GIG Cymru yn gallu cryfhau ei ddiwylliant diogelu a sicrhau na fydd unrhyw blentyn, person ifanc neu oedolyn dan risg yn cael ei esgeuluso.

Yn hanfodol, nid yw diogelu yn weithgaredd ar wahân – mae'n rhan integrol o ddarparu gofal iechyd teg a diogel ar gyfer unigolion ym mhob sefyllfa.

# Atodiad A: Ffactorau Nodi Risgiau – Methu Apwyntiadau / Diffyg Mynediad

Ffactorau sy'n helpu staff i asesu risgiau pan na fydd plant, pobl ifanc neu oedolion dan risg yn cael eu cludo i apwyntiadau neu pan fethir cael mynediad ar gyfer ymweliad â'r cartref neu gyfarfodydd rhithwir. Defnyddiwch ar y cyd ag ystyriaethau proffesiynol a gweithdrefnau aml-asiantaeth.

### 1 | Cyd-destun a Hanes

- Achos cyntaf o fethu apwyntiad, neu ran o batrwm?
- Aml-asiantaethau yn rhan o'r broses (ee addysg, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl)?
- Hanes o fethu apwyntiadau neu ymweliadau yn methu cael mynediad?
- Hanes o ddiffyg diogelu yn achos y teulu neu'r unigolyn?
- Newidiadau diweddar yn y teulu, trefniadau byw, gofalwyr?

### 2 | Amgylchiadau Unigolion

- Unigolyn yn dibynnu ar rywun arall i fynychu apwyntiadau neu ddarparu mynediad?
- Unigolyn yn destun anghenion iechyd cymhleth, anabledd neu niweidiau?
- Unrhyw fater hysbys yn gysylltiedig ag anghenion gallu, caniatâd neu gyfathrebu?
- Unigolyn wedi trosi rhwng gwasanaethau yn ddiweddar (ee gwasanaethau plant i oedolion)?

### 3 | Elfennau Gofalwr/Teulu

- Unrhyw bryderon am gysylltiad neu gydymffurfiad rhiant/gofalwr?
- Unrhyw arwyddion o esgeulustod, camddefnyddio sylweddau, cam-drin yn y cartref neu faterion iechyd meddwl yn y cartref?
- Unrhyw rwystrau iaith, llythrennedd neu ddiwylliannol yn effeithio presenoldeb?

### 4 | Ceisio Cysyllltu

- Wedi ceisio cysylltu ar ôl methu apwyntiad neu ddiffyg mynediad?
- Wedi cynnig newidiadau rhesymol (ee amser, lleoliad, cyfieithydd, trafnidiaeth)?
- Wedi cysylltu â'r unigolyn/teulu i drafod y rhesymau am fethu bod yn bresennol?
- Wedi gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth ble'n addas?

### 5 | Ystyriaethau Diogelu

- Methu apwyntiad yn awgrymu anghenion iechyd heb eu diwallu neu botensial niwed?
- Wedi trafod y sefyllfa gydag arweinydd diogelu neu reolwr llinell?
- Wedi rhannu'r wybodaeth gyda phartneriaid aml-asiantaeth perthnasol?
- Oes angen cyfeiriad o dan weithdrefnau diogelu?

### 6 | Dogfennau a Gweithredu

- Wedi cofnodi methu apwyntiad a mesurau wedi hynny?
- Wedi cofnodi a dilyn i fyny mesurau neu gyfeiriadau diogelu?
- Angen adolygu neu drafod yr achos gyda'r tîm ehangach neu arweinydd diogelu?

**Nodyn:** Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Defnyddiwch ochr yn ochr ag ystyriaethau clinigol, polisïau diogelu lleol a gweithdrefnau rhanbarthol a chenedlaethol.

# Atodiad B: Deall beth sy'n Rhwystro Presenoldeb

Ni fydd pob methiant i gadw apwyntiad neu ymweliad heb dderbyn mynediad yn awgrymu pryderon diogelu. Fodd bynnag, yn achos plant, pobl ifanc ac oedolion dan risg, efallai bydd rhwystrau rhag mynychu apwyntiadau yn adlewyrchu problemau dyfnach yn galw am ymchwiliad sensitif a mesurau diogelu.

Bydd yn bwysig ymchwilio methu apwyntiadau gyda chywreinrwydd proffesiynol, gan edrych ar y rhesymau heb farnu a deall yr oblygiadau diogelu tu ôl methu gweld swyddog iechyd.

### Rhwystrau Emosiynol, Seicolegol ac Amgylcheddol

- Ofn, pryder neu drawma yn gysylltiedig â sefyllfaoedd gofal iechyd neu brofiadau blaenorol
- Rheolaeth orfodol neu gamdriniaeth yn y cartref yn cyfyngu rhyddid neu gysylltiad â gwasanaethau
- Drwgdybio neu ddatgysylltu â gwasanaethau oherwydd profiadau negyddol yn y gorffennol
- Anghenion iechyd meddwl rhieni/gofalwyr yn effeithio'r gallu i fynychu apwyntiadau
- Cartrefi anhrefnus neu ansefydlog, yn cynnwys esgeulustod.

### Rhwystrau Ymarferol ac Economaidd Gymdeithasol

- Problemau ariannol yn effeithio mynediad i drafnidiaeth neu gyfathrebu
- Problemau llety, symud yn aml, neu anawsterau trefnu llety
- Diffyg gofal plant neu gyfrifoldebau eraill
- Eithrio digidol yn effeithio mynediad i apwyntiadau rhithwir neu mewn lleoliadau anodd eu cyrraedd
- Problemau trafnidiaeth, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig neu i rai gydag anghenion symudedd

### Anghenion Cyfathrebu a Mynediad

- Rhwystrau ieithyddol a llythrennedd
- Diffyg mynediad i gyfieithwyr neu ddeunydd wedi ei gyfieithu
- Anghenion mynediad anabledd (corfforol, synhwyrol, anabledd dysgu)
- Unigolion niwro-amrywiol a allai fod angen addasiadau ychwanegol

### Cyfrifoldebau Trefniadol

Rhaid i wasanaethau GIG Cymru weithio i ostwng y rhwystrau hyn wrth drefnu:

- Amserlenni apwyntiadau hyblyg (ee nosweithiau, penwythnosau)
- Trefnu apwyntiadau maes ble'n ddiogel ac addas
- Cyd-drefnu gwasanaethau er osgoi dyblygu neu greu gofynion yn cystadlu â'i gilydd
- Trefnu addasiadau rhesymol ar gyfer anghenion anabledd, cyfathrebu, neu ddiwylliannol
- Cyfathrebu'n glir a chynhwysol wedi'i addasu er cwrdd ag anghenion unigolion.

Rhaid cofnodi absenoldeb yn glir, gan ymchwilio'r rhesymau ac ymateb yn addas. Pan fydd rhwystrau yn awgrymu risgiau neu ddiffyg darpariaeth yn ôl anghenion, dylid ystyried prosesau diogelu heb oedi.

# Atodiad C: Termau a Diffiniadau

| | |
|---|---|
| **Oedolyn dan risg** | Oedolyn sy'n wynebu, neu dan risg o gamdriniaeth neu esgeulustod, ac:<br>• anghenion gofal a chymorth (boed yn cael eu darparu ai peidio), ac<br>• o ganlyniad, yn methu diogelu eu hunain rhag camdriniaeth, esgeulustod, neu risg o niwed.<br>Rhaid i gyfrifoldebau diogelu ystyried hawl yr oedolyn i ddiogelwch ac annibyniaeth, a'r angen am fesurau ataliol cymesur. |
| **Plentyn** | Person o dan 18 oed.<br>Rhaid gwneud pob penderfyniad diogelu er lles y plentyn, gyda diogelwch, llais a llesiant yn ganolog i'r broses. |
| **Rheolaeth Orfodol** | Patrwm cyson o ymddygiad gorfodol neu fygythiol a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu frawychu person. Mae'n cynnwys ynysu, gwylio a thrafod er gostwng annibyniaeth. Cydnabyddir fel trosedd o dan Ddeddf Troseddau Difrifol (2015). Rhaid i staff fod yn effro i reolaeth orfodol fel pryder diogelu, yn arbennig pan fydd yn effeithio diogelwch plentyn neu oedolyn dan risg. |
| **Heb Fynychu** | Os na fydd claf yn derbyn cynnig o apwyntiad neu pan fydd yn cytuno i apwyntiad neu driniaeth, ond nid yn eu mynychu heb rybudd ymlaen llaw. Ym maes diogelu, yn benodol yn achos plant neu oedolion dan risg, rhaid i'r ffocws symud o *heb fynychu i oblygiadau colli'r cyfle i ddiogelu eu llesiant.*<br>Nid yw'n fater o bennu bai – yn hytrach ystyried y risgiau a chymryd camau i sicrhau na fydd gofal y person yn dioddef.<br>**Fideos Ailystyried Heb Fynychu – Linc fideos YouTube:**<br>Rethinking 'Did Not Attend'<br>Was Not Brought |
| **Heb Aros** | Unigolion sy'n cyrraedd lleoliad apwyntiad gofal iechyd ond yn gadael cyn cael eu gweld.<br>Cysylltir yn aml ag adrannau brys prysur, ble mae pethau fel hyn yn gallu digwydd, ond hefyd yn gallu bod yn arwydd o fethu diwallu anghenion brys. Rhaid blaenoriaethu mesurau i'w dilyn i fyny – yn arbennig yn achos plentyn neu oedolyn dan risg – er sicrhau na fyddant heb gymorth. |
| **Datgysylltu** | Pan fydd plentyn, teulu neu oedolyn dan risg yn datgysylltu'n rhannol, ysbeidiol, neu'n barhaus o wasanaethau iechyd neu ddiogelu. Gall hynny ddeillio o gynnydd mewn pwysau, esgeulustod neu niwed. Bydd yn bwysig nodi hynny'n gynnar a threfnu ymateb diogelu cymesur er mwyn gostwng risgiau a chefnogi ailgysylltu. |

| | |
|---|---|
| **Cydmffurfiad arwynebol** | Pan fydd rhiant, gofalwr neu unigolyn yn ymddangos i gysylltu â gwasanaethau ond yn osgoi cysylltiad ystyrlon. Gallai hynny olygu canslo apwyntiadau ar fyr rybudd, rhoi rhesymau am fethu bod yn bresennol, neu ymddangos yn gydweithredol er mwyn gostwng pryderon staff. Mae hynny'n gallu cuddio risgiau. Rhaid i staff barhau'n effro ac yn gywrain, gwirio ffeithiau ac ymchwilio patrymau ymddygiad er diogelu'n effeithiol. |
| **Camdriniaeth yn y cartref** | Unrhyw batrwm o ymddygiad difrïol, gorfodol neu fygythiol rhwng unigolion 16 oed neu hŷn sydd yn, neu wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau'r teulu. Mae hynny'n cynnwys rheolaeth gorfforol, emosiynol a rhywiol, cam-drin ariannol a rheolaeth orfodol. Mae bod yn destun camdriniaeth yn y cartref yn gallu cael effeithiau difrifol hir dymor ar blant a rhaid eu hystyried bob amser yn destun pryder diogelu. |
| **Rhannu Gwybodaeth** | Mae diogelu effeithiol yn dibynnu ar rannu gwybodaeth gywir yn amserol a chymesur.<br><br>Er bod cynnal cofnodion digidol yn parhau yn nod, mae dyletswydd ar bob aelod staff i rannu gwybodaeth fydd yn helpu i adeiladu darlun cyflawn o'r potensial risgiau – yn cynnwys methu apwyntiadau, datgysylltu a phatrymau o gonsyrn. Rhaid i ddiogelwch a llesiant plant ac oedolion dan risg bob amser fod yn bwysicach na ffiniau trefniadol. |
| **Gallu Meddyliol** | Y gallu i wneud penderfyniadau deallus am iechyd, llesiant a gofal eich hun.<br><br>Byddwn yn cymryd bod pob oedolyn yn meddu ar y gallu hynny oni fydd tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Yn absenoldeb y gallu hwnnw, rhaid cymryd penderfyniadau er lles y person ar bob amser, yn unol â Deddf Gallu Meddyliol (2005). Rhaid i staff ystyried sut allai gallu meddyliol, anghenion cyfathrebu, neu weithredu gwybyddol effeithio gallu rhywun i fynychu a bod yn rhan o apwyntiadau. |
| **Dim Mynediad / Heb dderbyn mynediad** | Pan na fydd aelod staff yn gallu cael mynediad i gartref neu leoliad apwyntiad a dim rheswm wedi ei roi am ganslo. Dylid cofnodi hynny'n glir a'i drin fel methu apwyntiad. Efallai bydd ailadrodd methu apwyntiadau neu ddiffyg mynediad yn awgrymu cydymffurfiad arwynebol, datgysylltu neu risgiau, a galw am ymchwiliadau pellach. |
| **Cyfrifoldebau a Hawliau Rhiant** | Mae rhieni a gofalwyr yn meddu ar hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol i wneud penderfyniadau am ofal eu plant. Fodd bynnag, pan fydd gwrthod neu osgoi gofal iechyd yn peryglu iechyd, datblygiad neu ddiogelwch plentyn, rhaid cydnabod hynny a gweithredu. Mae hawl plentyn i iechyd a diogelwch rhag niwed – yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn – yn mynnu blaenoriaeth o dan arferion diogelu. |

| | |
|---|---|
| **Chwilfrydedd Proffesiynol** | Ymdrechion clir i ymchwilio beth yw natur bywyd plentyn neu oedolyn dan risg – tu hwnt i'r hyn a welir neu a fynegir, nodi patrymau, gwirio anghysonderau ac ystyried y darlun cyflawn. Mae'n bwysig dilyn cywreinrwydd proffesiynol wrth gydnabod pa na fydd rhywbeth yn teimlo'n iawn – ac wrth gymryd camau i ddeall ac ymateb.<br>**Fideos Chwilfrydedd Proffesiynol:**<br>English<br>Cymraeg |
| **Cynnal Cofnodion** | Mae cadw cofnodion clir, cywir ac amserol yn hanfodol ym maes diogelu. Maent yn darparu dilyniant, cefnogi asesiadau risg ac yn sicrhau atebolrwydd. Rhaid cofnodi pob ymweliad na fydd yn derbyn mynediad, pob apwyntiad wedi eu canslo a'u methu – yn cynnwys y mesurau a gymrwyd a'r ystyriaethau proffesiynol.<br>Cyfarwyddyd: Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Llywodraeth Cymru (2022)<br>RCN Guidance on Record Keeping: RCN Website |
| **Aildrodd Canslo** | Mae patrymau canslo neu ad-drefnu apwyntiadau – yn arbennig pan fyddant yn rhwystro mynediad i gymorth iechyd neu ddiogelu – yn achosi cymaint o bryder ag osgoi mynychu apwyntiadau. Rhaid edrych arnynt yng nghyd-destun diogelu, gyda chwilfrydedd ac wrth ymchwilio risgiau posibl. Mae ymddygiad fel hyn yn gallu cuddio esgeulustod neu gydymffurfiad arwynebol, ac ni ddylid eu derbyn heb ymchwilio ymhellach. |
| **Llais Plentyn neu oedolyn dan risg** | Rhaid gwrando ar, parchu a gweithredu ar farn, teimladau a phrofiadau plentyn neu oedolyn dan risg. Mae hynny'n cynnwys cyfathrebu llafar a di-eiriau, gan addasu dulliau ar gyfer rhai gydag anghenion ychwanegol, a'u cynnwys wrth gymryd penderfyniadau.<br>**"Nothing about me, without me"** yn fwy na chymal cyffredin – mae'n elfen hanfodol ym maes diogelu. Rhaid cefnogi plant ac oedolion er mwyn rhannu eu barn – a rhaid i staff wrando, ystyried ac ymateb mewn ffyrdd sy'n dangos bod eu barn yn bwysig. |